

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR

C.B.Jones

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX**

Ms. Karyl May (Ffôn: 01443 424045)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach **brynhawn Mercher, 19 Gorffennaf, 2017** am **5pm**

AGENDA

Tudalennau

DATGAN BUDDIANT

1 Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Côd Ymddygiad

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 CYHOEDDIADAU

3 COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Mehefin, 2017, yn rhai cywir.

1 - 10

4 LLYWODRAETHU AGORED:

5 DATGANIADAU yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw gyfrifoldebau gweinyddu.

6 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

(a) **Cwestiwn Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D.Grehan i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"A wnaiff yr Arweinydd ddatganiad ar seilwaith y priffyrdd yn Nhonyrefail?"

(b) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J.Brencher i Arweinydd y Cyngor (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A.Morgan)**

"Wnaiff yr Arweinydd roi datganiad ynglŷn ag ailddatblygu safle hen Ganolfan Siopa Dyffryn Taf / Taff Vale?"

(c) **Cwestiwn gan y Gynghorydd Bwrdeistref Sirol R.Yeo i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Lles (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A.Morgan)**

"Wnaiff yr Aelod Cabinet roi'r diweddaraf ar gamau rhagweithiol diweddar y Cabinet i fynd i'r afael â'r broblem baw cŵn yn Rhondda Cynon Taf?"

(d) **Cwestiwn gan y Gynghorydd Bwrdeistref Sirol G.Hughes i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol D.R.Bevan)**

"Sut mae'r Cyngor yn ceisio cefnogi canol ein trefi lleol?"

(e) **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol H.Fychan i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D.R.Bevan)**

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet roi'r diweddaraf ynglŷn â'r cynlluniau adfywio ar gyfer Canol Tref Pontypridd?"

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

- 7 Adroddiad ar Gyflawniad Corfforaethol y Cyngor (Drafft)**
- Trafod adroddiad y Prif Weithredwr **11 - 52**
- 8 Newid i Aelodaeth Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf a'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc**
- Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol **53 – 54**
- 9 Adolygiad Blynyddol Cylch Rheoli'r Trysorlys 2016/17**
- Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen **55 – 62**
- 10 Rhybudd o Gynnig**
- Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol E.Stephens, G.Davies, H.Fychan, J.Williams, L.Jones, S.Rees-Owen, M.Weaver, J.Davies, J.Cullwick, S.Evans-Fear, E.Webster, A.Chapman, P.Jarman, K.Morgan, D.Grehan, A.Cox, W.Jones and D.Macey:-
- "Bod y Cyngor yma'n cefnogi, mewn egwyddor, yn amodol ar Adroddiad y Swyddog, darparu cynnyrch glanweithiol yn rhad ac am ddim, megis tamponau a thyweli, ym mhob Ysgol Uwchradd yn y Sir fel cydnabyddiaeth eu bod mor hanfodol â phapuriŷ tbach ar gyfer hylendid personol disgyblion benywaidd.
- Bydd adroddiad y Swyddog yn ymwneud â chost ariannol y ddarpariaeth, a fydd yn cael ei thalu'n ganolog. Yn ogystal â hynny, bydd yr adroddiad yn ymwneud â manteision y buddsoddiad yma o ran hyrwyddo urddas, cydraddoldeb, iechyd a lles, a'i effaith ar addysg yn y Sir sydd â nifer mor fawr o ddisgyblion sy'n byw mewn tlodi."

- 11 Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a
Llywodraethol**

**At: Bob Aelod o'r Cyngor
12 Gorffennaf, 2017**